COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 20 MEHEFIN 2018 AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd JR McCarthy – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | SE Baldwin | JPD Blundell | NA Burnett |
| RJ Collins | HJ David | P Davies | SK Dendy |
| T Giffard | RM Granville | CA Green | DG Howells |
| A Hussain | RM James | B Jones | M Jones |
| DRW Lewis | JE Lewis | DG Owen | D Patel |
| RL Penhale-Thomas | AA Pucella | JC Radcliffe | KL Rowlands |
| RMI Shaw | SG Smith | JC Spanswick | RME Stirman |
| G Thomas | T Thomas | JH Tildesley MBE | E Venables |
| SR Vidal | MC Voisey | LM Walters | CA Webster |
| DBF White | PJ White | AJ Williams | HM Williams |
| RE Young | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

TH Beedle, MC Clarke, N Clarke, PA Davies, DK Edwards, J Gebbie, MJ Kearn, B Sedgebeer, CE Smith, KJ Watts, A Williams a/ac JE Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Gary Jones | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| Richard Matthams | Arweinydd Tîm Cynllunio Datblygiadau |
| Darren Mepham | Prif Weithredwr |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Mark Shephard | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Kevin Stephens | Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Democataidd |
| Kelly Watson | Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |

189. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd Cyfreithiwr y Cyngor a'r Swyddog Monitro fuddiant yn eitem 14 ar yr Agenda ac fe wnaethant adael y cyfarfod tra cafodd yr eitem hon ei hystyried.

190. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor fel cofnod gwir a chywir: -

Y Cyfarfod blynyddol - 16 Mai 2018
Cyfarfod arferol - 25 Ebrill 2018

191. DERBYN CYHOEDDIADAU ODDI WRTH:

Y Maer

Cyhoeddodd y Maer mai dim ond tair wythnos oedd yna ers iddo gael ei sefydlu'n swyddogol fel Maer, er ei fod ef a'i Gymar wedi bod yn hynod o brysur. Roeddent eisoes wedi mynychu 16 o ymrwymiadau "swyddogol", oedd i gyd yn wahanol iawn ond yn eu ffordd eu hunain yn ddiddorol ac yn bleserus iawn.

Roeddent wedi cael eu swyno gan lansiad llyfr y Gofalwyr Ifanc, lle roedd pobl ifanc wedi cydweithio i gynhyrchu llyfr stori i blant i godi ymwybyddiaeth ymysg plant ysgol gynradd am rai o'r problemau sy'n wynebu gofalwyr ifanc. Roedd hwn yn ddigwyddiad teimladwy oedd wedi'u hysbrydoli ac roedd yn wych cael cwrdd â phawb a wnaeth y llyfr yn realiti, fe esboniodd.

Cafodd y Maer hefyd yr anrhydedd o gyfarfod Ei Uchelder Brenhinol Dug Caint yn ystod ei ymweliad â Sony yr wythnos ddiwethaf. Cafodd ef a'i Gymar daith ddiddorol ac addysgiadol o gwmpas y ffatri, lle cafwyd cyfle i wylio cynhyrchu'r Raspberry Pi - enghraifft wych o arloesi, dylunio a pheirianneg y DU.

Roedd agor Gŵyl Maesteg hefyd yn noson bleserus, gyda'r grŵp Collabro yn rhoi adloniant cerddorol gwych. Dymunai sôn hefyd am yr arddangosfa gelf wych gan blant nifer o ysgolion cynradd Maesteg. Defnyddiodd yr arddangosfa ddeunyddiau anarferol iawn, a chafodd y plant eu cynorthwyo a'u hysbrydoli gan yr artist ifanc Cymreig, Nathan Wyburn.

Digwyddiad hynod ddiddorol arall oedd rowndiau terfynol rhanbarthol Menter yr Ifanc, a gynhaliwyd yn Ysgol Fusnes Caerdydd. Roedd timau o entrepreneuriaid ifanc o bob cwr o Gymru yn cystadlu am le yn rowndiau terfynol Prydain, a chymerodd Ysgol Brynteg ran ac ennill y wobr am y stondin fasnach orau. Mae eu prosiect ardderchog yn defnyddio bagiau siopa wedi'u hailgylchu i wneud esgidiau i bobl yng ngwledydd y trydydd byd; yn anffodus fe'u curwyd gan Ysgol Haberdashers yn Nhrefynwy, ond roedd ein tîm lleol wedi gwneud argraff fawr ar y Maer.

Heblaw am y digwyddiadau hyn, mae'r Maer wedi mynychu seremoni i agor siop, cyflwyniad Rhyddid y Fwrdeistref yn Rhondda Cynon Taf, y diwrnod gwirfoddoli yn y Gynghrair Amddiffyn Cathod, gwobrau Cymdeithas Gelf Tondu, digwyddiad 5ed pen-blwydd Côr Tenovus, digwyddiad Wythnos y Gofalwyr, seremoni Dinasyddiaeth Brydeinig, digwyddiad yn ymwneud â Phen-y-bont ar Ogwr yn ystod y Rhyfel, Gerddi Agored Cefn Cribwr, ymweliad â'r YMCA, a digwyddiad 'Cydraddoldeb' yn dathlu 100 mlynedd o bleidleisiau i ferched gyda'n cwmni Geidiaid lleol.

Yn olaf ond nid yn lleiaf, cadarnhaodd y Maer ei fod wedi cael y pleser o gyhoeddi mai Lewis David Pilliner fydd y Maer Ieuenctid newydd ar gyfer 2018 -19. Mae Lewis yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Bryntirion ac roedd yn edrych ymlaen at weithio gydag ef yn ystod y flwyddyn i ddod.

Dirprwy Arweinydd

Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd i'r Aelodau barhau i annog eu hetholwyr i arwyddo ar gyfer gwasanaeth 'Fy Nghyfrif/My Account' y Cyngor a lansiwyd yn ddiweddar.

Ynghyd â'r wefan newydd sbon, mae Fy Nghyfrif wedi ei gynllunio i'w gwneud hi'n haws ac yn symlach i bobl gael mynediad at wasanaethau'r cyngor, ac mae ganddo'r potensial i ddod ag arbedion mawr i'r awdurdod.

Mae Fy Nghyfrif yn hyb ar-lein bob awr o'r dydd sy'n gadael i bobl gyflawni tasgau sy'n gysylltiedig â'r cyngor yn gyflym ac yn hawdd, 24 awr y dydd. Mae'r cam cychwynnol yn

caniatáu i chi wneud pethau fel gweld bil y dreth gyngor, gwneud cais am fudd-dal tai, gwneud cais am ostyngiadau ac eithriadau, gwneud taliadau ar-lein, sefydlu a rheoli debydau uniongyrchol, tanysgrifio i e-filio a mwy.

Wrth i Fy Nghyfrif ddatblygu, caiff ei ehangu i alluogi pobl i wneud pethau fel rhoi gwybod am dyllau yn y ffordd, gwneud cais am leoedd mewn ysgolion lleol, talu am brydau ysgol neu adael i'r awdurdod wybod am oleuadau stryd diffygiol.

I ddefnyddio'r gwasanaeth newydd, rhaid i'r trigolion ymweld â gwefan y cyngor a chofrestru i gael cyfrif gan ddefnyddio eu cyfeiriad e-bost.

Cynhelir y sesiwn a ailadroddir o hyfforddiant ymwybyddiaeth am y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) yn Siambr y Cyngor ddydd Mercher 27 ain Mehefin 2018 gan ddechrau am 9:00 am. Mae'r Cynghorwyr i gyd wedi eu cofrestru fel Rheolwyr Data ac mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi nodi'r hyfforddiant hwn fel hyfforddiant hanfodol i'r holl Aelodau Etholedig ei fynychu.

Cafodd disgrifiadau rôl ar gyfer Aelodau Etholedig eu creu a'u teilwra ar gyfer pob Cynghorydd unigol. Mae Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi gofyn i chi wirio a llofnodi'r copïau o'ch disgrifiadau rôl unigol sydd wedi'u gosod ar eich desgiau. Cesglir y rhain ar ddiwedd y cyfarfod a byddant yn cael eu defnyddio i gefnogi cyflawni Siarter CLILC (WLGA) ar gyfer Cefnogi a Datblygu'r Aelodau. Os oes angen unrhyw welliannau i'ch disgrifiadau rôl, rhowch wybod i'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd a byddant yn diweddaru'r dogfennau yn unol â hynny.

Gofynnir i'r Aelodau adael eu dyfeisiau Surface Pro yn eu desgiau yn Siambr y Cyngor ar ddiwedd y cyfarfod heddiw. Bydd hyn yn galluogi'r Adran TGCh i wneud yr uwchraddiadau Microsoft angenrheidiol i'r dyfeisiau a chaniatáu i'r Ap cyfyngedig Modern.gov gael ei osod, a fydd yn rhoi mynediad i'r Aelodau i bapurau Eithriedig ar gyfer y Pwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt.

Bydd yr uwchraddio yn digwydd ddydd Iau 21ain a dydd Gwener 22ain o Fehefin. Bydd y Tîm Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â chi i drefnu i chi gasglu eich dyfais ac i fynd â'r Aelodau drwy'r broses gofrestru ar gyfer yr Ap Cyfyngedig.

Aelod Cabinet - Cymunedau

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau fod Adeilad eiconig Jennings, Porthcawl wedi cael ei gydnabod â gwobr arall ar ôl i Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig gymeradwyo'r ffordd y daethpwyd â'r strwythur rhestredig Gradd II yn ôl i fod yn adeilad sy'n cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd.

Roedd yn siŵr y bydd yr Aelodau wedi sylwi sut y gosodwyd y gyntaf o'r adrannau teras newydd ar draeth y dref, a chyda datblygiadau megis ailwampio ciosg yr harbwr sydd yn mynd i ddarparu cyfleusterau newydd i ddefnyddwyr y marina neu'r ganolfan chwaraeon dŵr newydd sy'n cael ei datblygu yn Rest Bay, mae amserau cyffrous o'n blaenau. Roedd Salt Lake bellach yn ôl yn nwylo'r Cyngor, ac yr oedd yn gobeithio y bydd gennym newyddion yn fuan am y safle ar lan y môr lle roedd hen fflatiau Dunraven gynt.

Ym Mhorthcawl hefyd mae peth gwaith i'w wneud ar wal y morglawdd i wneud yn sicr bod y strwythur yn dal i fod yn gadarn. Mae'r morglawdd wedi gwneud gwaith gwych, ac mae hyd yn oed wedi creu newyddion rhyngwladol diolch i rai golygfeydd syfrdanol o donnau enfawr yn taro yn erbyn y goleudy eiconig. Byddai rhagor o fanylion yn dilyn wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Mae 'Blwyddyn y Môr' 2018 ar y gweill, ac mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr eisoes wedi ei nodi trwy gynnal 'acwathlon', nofio ar draws y bae a digwyddiadau gwirfoddol i lanhau'r traeth.

Mae'r Cyngor yn cynllunio llawer o weithgareddau haf eraill gyda phartneriaid fel Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen a Credu Charity Cyf, felly ni ddylai'r Aelodau synnu os ydynt yn gweld creaduriaid môr mawr yn crwydro ar hyd y promenâd, theatr stryd neu olwg modern ar gardiau post glan môr traddodiadol. Bydd Blwyddyn y Môr hefyd yn cael ei nodi mewn amrywiaeth o ffyrdd diddorol mewn digwyddiadau poblogaidd eraill dros y misoedd nesaf, felly fe anogodd yr Aelodau i chwilio am fwy o newyddion am hyn yn fuan.

Mewn man arall yn y Fwrdeistref Sirol, mae disgybl chwech oed o Gwmfelin, Thomas Lewis, wedi ennill cystadleuaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol i ddod o hyd i enw addas ar gyfer ein car patrol CCTV newydd sy'n mynd i'r afael â pharcio peryglus ac anghyfreithlon y tu allan i ysgolion.

Mae'r car bellach wedi'i ffitio gyda lifrai sy'n cynnwys ei enw newydd, sef Roly Patrolly.

Mae Roly Patrolly yn defnyddio offer adnabod platiau rhif awtomatig ar gyfer CCTV, ac fe'i cynlluniwyd i gofnodi unrhyw yrwyr anystyriol sy'n parcio eu ceir yn anghyfreithlon ar barthau 'cadwch yn glir' ysgolion, arosfannau bysiau, croesfannau i gerddwyr gyda llinellau igam-ogam ac ardaloedd cyfyngedig eraill sy'n rhoi plant mewn perygl.

Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, fod canolfan diogelu aml-asiantaeth MASH newydd Pen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar wedi symud i Ravens Court ac yn parhau i sefydlu ei hun.

Erbyn yr hydref cynnar, bydd y MASH yn cynnwys oddeutu 85 aelod staff o ofal cymdeithasol oedolion a phlant, Heddlu De Cymru, addysg, tai, camddefnyddio sylweddau, prawf, iechyd, gwasanaethau cymorth cynnar a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru.

Byddant yn gweithio gyda'i gilydd fel rhan o dîm amlasiantaethol i ddarparu gwasanaethau diogelu effeithiol ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion.

Mae sefydlu MASH Pen-y-bont ar Ogwr yn cyd-fynd â gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a bydd yn ei gwneud yn bosibl i rannu gwybodaeth, dadansoddi a gwneud penderfyniadau cynharach, ac o ansawdd uwch yn gynharach.

Mae lansiad swyddogol yn cael ei gynllunio ar gyfer yr hydref cynnar, ac roedd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, yn edrych ymlaen at ddod â manylion pellach i'r Cyngor am hyn maes o law.

Roedd hefyd am sôn fod Wythnos y Gofalwyr 2018 yn cael ei nodi ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyda chyfres o ddigwyddiadau gwybodaeth, stondinau, canolfannau galw heibio a mwy.

Cynhaliwyd y digwyddiadau a sefydlwyd o dan thema eleni sef 'helpu gofalwyr i gadw'n iach ac yn gysylltiedig', mewn lleoliadau yn amrywio o Sainsbury's i Ysbyty Tywysoges Cymru lle cawsant lawer o sylw.

Fel pwynt diddordeb cysylltiedig olaf, mae un o'n gofalwyr ifanc wedi ysgrifennu llyfr gyda darluniau ar y cyd â Chanolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr.

Fe'i gelwir yn 'The Bear Who Cared' ac fe'i cynlluniwyd i addysgu plant bach am yr hyn y mae'n ei olygu i fod yn ofalwr.

Roedd yr Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yn ystyried bod y llyfr yn cyfleu darlun teimladwy iawn a'i fod yn llawn gwybodaeth, ac roedd yn gobeithio y byddai'r Aelodau yn ei ystyried felly hefyd. Gellir cael mwy o wybodaeth am y llyfr hwn trwy ganolfan Gofalwyr Pen-y-bont ar Ogwr.

Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol, y bydd Aelodau'n ymwybodol fod Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o 20,000 ar gyfer cartrefi fforddiadwy. Un o'r ffyrdd y mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cyfrannu at hyn yw trwy ddarparu a gosod tai 'modiwlaidd' newydd sbon.

Mae'r rhain yn cynnwys adrannau unigol sy'n cael eu hadeiladu mewn ffatri, sy'n dod gydag offer cegin, gwres a'r gwaith trydanol wedi'u gosod yn barod. Maent yn cael eu hadeiladu'n lleol mewn ffatri yng Nghynffig, fel bod modd gosod pob adran neu fodiwl ar y safle i ffurfio tŷ cyflawn.

Mantais fawr y cynllun yw ei fod yn darparu tai o ansawdd uchel, am gost isel, yn gyflym iawn, iawn, gan leihau'r cyfnod adeiladu i gyn lleied â thair wythnos i bob cartref. Mae hyn yn golygu, o gymharu â dulliau adeiladu traddodiadol, y gellir darparu cartrefi modiwlaidd ar gyfradd sy'n 50 y cant yn gyflymach ac sydd yn cael llai o effaith ar yr amgylchedd.

Mae'r cynllun yn cael ei ddarparu fel rhan o bartneriaeth gyda Valleys to Coast a'r arbenigwyr Wernick Buildings. Bydd yn sefydlu wyth cartref modiwlar newydd yn Sarn a Thondu, ac fe'i hariannwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae ein partneriaeth hirsefydlog gyda Valleys To Coast Housing wedi bod yn hynod gynhyrchiol wrth ddarparu cartrefi o ansawdd uchel i gymunedau lleol, ac roedd hi'n sicr y bydd yr unedau modiwlaidd newydd yn llwyddiant mawr arall.

Soniodd yr Aelod Cabinet - Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn fyr hefyd am yr her darllen haf sydd i ddod. Eleni, bydd gan y cynllun thema 'Beano' wrth i blant gymryd rhan mewn helfa drysor dan arweiniad neb llai na Dennis the Menace.

Bydd pob plentyn sy'n cymryd rhan yn derbyn map o Beanotown, a bydd pob llyfr y byddant yn ei ddarllen yn datgelu cliwiau ynghylch ble mae'r trysor cudd wedi'i gladdu.

Roedd hi'n siŵr y bydd yr Aelodau am annog plant eu hetholaeth i gymryd rhan, a gellir dod o hyd i ragor am y digwyddiad hwn trwy ymweld â gwefan her darllen yr haf.

Prif Weithredwr

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr fod Ysgrifennydd y Cabinet sydd â chyfrifoldeb dros lywodraeth leol wedi cyhoeddi Papur Gwyrdd yn ddiweddar o'r enw Cryfhau Llywodraeth Leol. Er bod cyfeiriad at yr angen i archwilio rôl a phwrpas llywodraeth leol, roedd llawer o bwyslais wrth gwrs ar ail-lunio'r ffiniau a chyfuno Cynghorau. Nid oedd yn ymddangos bod gan hwn lawer o gysylltiad â'r ymarferiad blaenorol gan ei ragflaenydd a oedd wedi canolbwyntio ar weithio rhanbarthol.

Mae'r pum Arweinydd grŵp wedi cyflwyno ymateb ar y cyd gan CBSP (BCBC). Roedd yn mynd i rannu hyn gyda'r Aelodau i gyd, ond aeth ati i grynhoi'r prif bwyntiau a wnaed gan GBSP.

Yn gyntaf, roedd ein hymateb yn cadarnhau a chefnogi'r cyflwyniad gan GLIC (WLGA). Ymdriniodd y cyflwyniad hwnnw yn fanwl â pha mor anaddas oedd ystyried ail-lunio llinellau ar fapiau ar hyn o bryd, felly ni wnaethom ailadrodd hynny ond yn hytrach gwnaed y pwynt nad oes achos busnes clir sy'n dangos bod perfformiad neu gyfle yn gymesur â maint awdurdod. Nid oes arwydd clir o hyd bod costau newid yn cael eu deall yn llawn nac yn bosibl eu cyflawni.

Yn hytrach, roedd ymateb yr Arweinydd grŵp yn canolbwyntio ar roi awgrymiadau am yr hyn y gallai llywodraeth leol gryfach ei olygu, sef teitl y papur gwyrdd wedi'r cwbl. Awgrymai'r cyflwyniad y dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar gryfderau llywodraeth leol, sef atebolrwydd democrataidd uniongyrchol a dealltwriaeth o gymuned a dinasyddion a'r ffocws arnynt.

Aeth ymlaen i awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru roi cyfrifoldebau ychwanegol i lywodraeth leol fel comisiynu a chydlynu iechyd yn seiliedig ar y gymuned a arweinir gan y GIG ar hyn o bryd, fel y gallem integreiddio hynny'n well â Gwasanaethau Cymdeithasol a goresgyn ffocws y GIG sy'n ddealladwy ond yn gul yn y pen draw ar ysbytai a rhestrau aros. Y wobr fawr yma yw cymorth cynnar ac atal.

Yn yr un modd, fe wnaethom hefyd awgrymu rôl ar gyfer llywodraeth leol yn iechyd y cyhoedd ac wrth gomisiynu addysg uwch.

Fe wnaeth CBSP (BCBC) y pwynt hefyd y dylid gwneud hyn yn ôl pob tebyg trwy bartneriaethau rhanbarthol presennol yn hytrach na chan 22 Cyngor unigol.

Bwriedid y rhain fel enghreifftiau o'r math o ddadl a fyddai'n fwy adeiladol ac ystyrlon wrth wneud llywodraeth leol yn fwy effeithiol na dim ond chwarae gyda llinellau ar fapiau.

Nododd cyflwyniad CBSP nifer o bwerau ychwanegol hefyd a fyddai'n helpu i wneud llywodraeth leol yn fwy effeithiol. Roedd y rhain yn cynnwys mwy o reolaeth dros ddefnyddio adeiladau ysgol. Ysgolion wrth gwrs yw'r asedau sy'n eiddo i'r Cyngor sydd â'r potensial mwyaf i fodloni amrywiaeth o anghenion yn ein cymunedau nid dim ond addysg. Yn ogystal roedd angen mwy o reolaeth dros ariannu gofal cymdeithasol.

Yn olaf, gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i fod yn fwy cydlynol wrth ymdrin â llywodraeth leol, gan nodi bod y Papur Gwyrdd hwn wedi dod oddi wrth un Ysgrifennydd Cabinet ond ein bod yn ymdrin â gwahanol ysgrifenyddion Cabinet a'u hadrannau ynghylch addysg, gofal cymdeithasol, cynllunio, adfywio, cyllid, yr amgylchedd a diwylliant.

Fel y dywedwyd yn gynharach, byddai'r Prif Weithredwr yn dosbarthu'r llythyr hwnnw i'r holl Aelodau er gwybodaeth.

Yn olaf, roedd yr Aelodau'n sicr yn gwybod y bydd ein Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd presennol, Gary Jones, yn gadael yr awdurdod yn fuan i ddechrau ar swydd newydd gyda Chyngor Dinas Caerdydd.

Mae Gary wedi bod gyda Phen-y-bont ar Ogwr am 14 mlynedd, ac roedd y Prif Weithredwr yn gwybod y bydd yr Aelodau a chyd-Swyddogion yn gweld ei golli.

Gan mai heddiw oedd cyfarfod olaf y Cyngor i Gary, roedd y Prif Weithredwr yn siŵr y byddai'r Aelodau'n dymuno manteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Gary am ei holl gymorth a chefnogaeth, a dymuno'n dda iddo yn y dyfodol, yn bersonol ac yn ei swydd newydd.

Adleisiodd yr Arweinydd deimladau’r Prif Weithredwr ar ran holl Aelodau'r Cyngor.

Daeth y Prif Weithredwr â’i gyhoeddiadau i ben trwy gadarnhau bod recriwtio Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd newydd wedi cyrraedd y camau olaf, a byddai'n rhoi diweddariad pellach i'r Aelodau, ar ôl i'r broses hon gael ei chwblhau.

Swyddog Monitro

Cyhoeddodd y Swyddog Monitro bod y Grŵp Ceidwadol wedi cyflwyno newid mewn perthynas â'i aelodaeth ar y Pwyllgor Archwilio, sef bod y Cynghorydd Altaf Hussain yn dod oddi ar y Pwyllgor ac yn cael ei ddisodli gan y Cynghorydd Tom Giffard, a bod hynny’n digwydd ar unwaith.

192. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Dywedodd yr Arweinydd fod Vaughan Gething, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wedi cyhoeddi yr wythnos ddiwethaf y bydd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn symud allan o ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, a bydd yn dod yn rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf erbyn Ebrill 2019.

Bydd yr effaith fwyaf uniongyrchol wrth gwrs ar feysydd gwasanaeth lle rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar ôl troed Bae'r Gorllewin, hy Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau cymorth cynnar fel Teuluoedd yn Gyntaf a Throseddau Ieuenctid. Cadarnhaodd y byddwn ar y cyfan yn disgwyl gweithio'n agosach gyda Chwm Taf, RhCT a Merthyr Tudful yn hytrach nag PABM (ABMU), Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.
Fodd bynnag, mewn achosion lle mae'n gwneud synnwyr i weithio ar y raddfa fwy honno, bydd enghreifftiau yn sicr lle y gallwn weld cydweithio ar draws ardaloedd y ddau fwrdd iechyd hefyd. Mae'n debygol hefyd y bydd rhai trefniadau presennol gyda chydweithwyr o fewn PABM (ABMU) a Bae’r Gorllewin yn cymryd ychydig yn hwy nag Ebrill 2019 i symud drosodd.

Fel roedd yr Aelodau'n ymwybodol, mae'r Cyngor wedi pwysleisio wrth Lywodraeth Cymru ers amser bod ystyried Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel rhan o Dde Ddwyrain Cymru ar gyfer gwasanaethau fel addysg a'r economi, ond fel rhan o Dde Orllewin Cymru ar gyfer gwasanaethau fel iechyd a gofal cymdeithasol, yn eithaf anodd i'w gynnal yn wyneb mwy a mwy o ranbartholi.

Roedd disgwyl i ni weithio mewn ffordd sy'n sylfaenol wahanol i ardaloedd Cynghorau eraill i gyd yng Nghymru yn peryglu gwanhau ein cymunedau, ond er gwaethaf hyn, rydym wedi creu record rhyfeddol o gydweithio effeithiol. Roedd yr Arweinydd yn siŵr y byddai’r Aelodau'n falch o weld bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y broblem. Mae datganiad y Gweinidog yn ei gwneud hi'n glir mai'r bwriad yw alinio ein holl drefniadau partneriaeth economaidd, addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn gadarn o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. O ran sut y bydd hyn yn effeithio ar ein partneriaethau gweithio cyfredol, rydym yn gobeithio cael mwy o eglurder yn fuan iawn. Ynghyd â'n partneriaid yn y ddau fwrdd iechyd, rydym wedi ymrwymo i wneud y trosglwyddo mor esmwyth ac effeithiol â phosibl, ac rydym yn cadw ffocws cadarn ar sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n cymunedau a'n trigolion.

Cyhoeddodd yr Arweinydd ei fod wrth ei fodd o weld y bydd Maesteg yn cael ei gwasanaethu gan bedwar trên yr awr yn ychwanegol at wasanaeth Sul newydd. Bydd hwn yn gyswllt hanfodol i helpu pobl i gael mynediad at swyddi a hyfforddiant, a bydd yn ei gwneud hi'n llawer haws teithio rhwng Cwm Llynfi a Phen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a thu hwnt.

Bydd unrhyw un sydd wedi ymweld â Gorsaf Reilffordd Pen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar wedi gweld canlyniadau ei adnewyddiad £1.5m yn ddiweddar. Bellach mae ganddi well ardal ‘concourse’ gyda desg wybodaeth newydd, swyddfa docynnau a seddi, toiledau newydd i deithwyr a chyfleusterau newid babanod newydd, cysgodfan a llwybrau newydd i gwsmeriaid, gwell diogelwch a theledu cylch cyfyng newydd, ac arwyddion ac arddangosiadau gwybodaeth i deithwyr newydd. Pen-y-bont ar Ogwr yw'r pumed orsaf reilffordd brysuraf yng Nghymru gyfan, felly roedd y Cynghorydd Young a'r Arweinydd yn arbennig o falch o gwrdd â Gweinidog y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates, i drafod goblygiadau'r system metro newydd. Mae gwaith uwchraddio ar y gweill fel bod modd defnyddio trenau tri-modd sy'n gallu newid rhwng batri, trydan a diesel, a bod y Fwrdeistref Sirol yn mynd i elwa ar gyswllt cyflym ac effeithlon i faes awyr Caerdydd.

Mae cysylltedd gwell a chyfleusterau modern yn hanfodol ar gyfer gwella ffyniant yr ardal, ac roedd yr Arweinydd yn edrych ymlaen at weld sut y bydd y datblygiadau diweddaraf hyn yn helpu i ddod â chymunedau yn nes at ei gilydd, cynnig mwy o gyfleoedd i gyflogaeth, hamdden a thwristiaeth, a darparu cefnogaeth i'r economi.

Yn ystod yr wythnos nesaf cynhelir yr Ŵyl Ddysgu ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr lle bydd yn arddangos rhai o'r dulliau dysgu ac addysgu newydd ac arloesol sy'n cael eu defnyddio mewn ysgolion lleol. Yn ystod yr wythnos, bydd mwy na 800 o ddisgyblion, athrawon, addysgwyr, hyfforddwyr a chyflogwyr yn cymryd rhan mewn 100 o weithdai mewn ysgolion lle byddant yn profi sut mae datblygiadau mewn ystafelloedd dosbarth modern yn dod â budd i blant lleol ochr yn ochr â thechnegau rhifedd a llythrennedd traddodiadol.

Bydd rhai o'r technegau newydd sy'n cael eu harddangos yn cynnwys defnyddio technoleg rhith realiti yn yr ystafell ddosbarth, therapi Lego ac ysgolion 'mynydd' awyr agored.
Bydd digwyddiad symposiwm yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr yn canolbwyntio ar sut y gall iechyd a lles disgyblion gael eu datblygu, eu cynnal a'u gwella, a bydd Diwrnod i Ddysgwyr yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr yn rhoi cyfle i blant osod stondinau a chynnig arddangosfeydd ac arddangosiadau ymarferol cyn cael araith gan yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru.

Bydd yr Ŵyl yn gyfle gwych i rannu gwybodaeth a datblygu ffyrdd newydd o gefnogi plant, ac roedd yr Arweinydd yn gobeithio y bydd yn tyfu fel y gall rhannau eraill o Gymru elwa o'r syniadau a’r datblygiadau y mae'n addo eu cyflawni.

Yn olaf, dywedodd yr Arweinydd fod mwy na £1.5 miliwn wedi ei fuddsoddi yn ardal Pencoed dros y blynyddoedd diwethaf fel rhan o'r rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, ac roedd yn falch o nodi'r arloesedd a ddangoswyd yn y datblygiad diweddaraf. Mae llwybr 300 metr o hyd wedi'i osod trwy goetiroedd rhwng Brook Vale a Llwyn Gwern fel rhan o lwybr diogel sy'n cysylltu ag Ysgol Gyfun Pencoed ac Ysgol Gynradd Croesty. Yr hyn sy'n gwneud y llwybr hwn mor wahanol yw ei fod yn tywynnu yn y tywyllwch diolch i arwyneb resin ffoto-ymoleuol sy'n harneisio golau UV a gasglwyd yn ystod y dydd.

Roedd hyn yn rhywbeth newydd i'r Fwrdeistref Sirol, ac mae'n sicr o helpu i arwain cerddwyr a beicwyr yn ystod misoedd y gaeaf. Mae hefyd yn cyd-fynd â newyddion bod

cyllid wedi ei gymeradwyo i ymestyn y llwybr presennol oddi ar y ffordd o Langrallo, a daeth yr Arweinydd i'r casgliad fod hyn yn newyddion da pellach.

193. DERBYN Y CWESTIWN CANLYNOL GAN: Y CYNGHORYDD A HUSSAIN I'R AELOD CABINET - CYMUNEDAU

'A allai Aelod y Cabinet roi gwybod i'r Cyngor os gwelwch yn dda sut mae trigolion Pen y Fai i fod i deithio yn ac o gwmpas Pen-y-bont ar Ogwr?'

**Ymateb:**

Mae Gwasanaeth Rhif 81 yn gweithredu ym Mhen y Fai ar hyn o bryd. Ond oherwydd y penderfyniad diweddar i gwtogi ar gyllid tuag at wasanaethau bws lleol sy'n cael eu cefnogi, bydd y cymhorthdal a ddarperir i'r gwasanaeth rhannol fasnachol hwn yn dod i ben ar 11 Awst 2018, gan adael elfen fasnachol y gwasanaeth.

Mater i'r gweithredwr fyddai gwneud y penderfyniad am hyfywedd masnachol yr elfen fasnachol hon.

Ond mae'r Gwasanaeth Rhif 67 (Pen-y-bont ar Ogwr - Abercenffig - Sarn) a ariennir yn rhannol gan GBSP (BCBC) ar gael, sydd ddim wedi ei effeithio gan ostyngiadau yn y gyllideb yn 2018/19.

Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithredu i Heol-tyn-Garn ar hyd y briffordd (A4063), cyn troi i'r dde i Ffordd Pen y Fai (tuag at Bentref Abercenffig). Mae'r llwybr dychwelyd yr un fath, sydd i'r dwyrain o Ben y Fai.

Os bydd y gweithredwr bysiau yn penderfynu dileu elfen fasnachol y gwasanaeth yna byddai hyn yn gadael rhan orllewinol ardal Pen y Fai heb wasanaeth. Pe byddai hyn yn digwydd yna byddai'n rhaid i'r trigolion ddefnyddio llwybr Gwasanaeth Rhif 67 i gael mynediad i Dref Pen-y-bont ar Ogwr neu Sarn.

Fel y nodwyd yn yr ymateb i'r ymgynghoriad mae gan lawer o drigolion fynediad at gerbydau modur preifat ac i'r rhai sydd â phroblemau mynediad penodol, mae trafnidiaeth gymunedol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig darpariaeth arall.

Wrth ystyried ail-drefnu gwasanaethau masnachol presennol, byddai hwn yn benderfyniad masnachol i'w wneud gan y gweithredwyr bysiau. Gofynnwyd am hyn ac archwiliwyd y mater yn flaenorol ac ar yr adeg honno roedd First Cymru Buses Ltd o'r farn bod hyn yn amhriodol gan ei fod yn effeithio ar amseru eu gwasanaethau.

O ran teithio llesol mae yna nifer o gynigion sydd wedi'u cynnwys ym Map Rhwydwaith Integredig y Cyngor (INM) a fydd yn ceisio gwella mynediad at deithio llesol i Ben-y-fai. Cymeradwywyd yr INM gan y Cabinet a Llywodraeth Cymru. Wrth gyfeirio at y pryderon penodol a godwyd gan y Cynghorydd Hussain, mae cynnig INM-BR-14 yn tynnu sylw at lwybr posibl y gellid ei rannu rhwng Pen-y-fai a Gorsaf Reilffordd Sarn yn gyfochrog â Heol Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn ogystal, mae cynnig INM-BR-19 yn nodi dymuniad i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer darparu llwybr i gerddwyr rhwng Pen-y-Fai a Chefn Glas ar hyd Ffordd Cefn Glas. Er bod y llwybr hwn wedi'i nodi fel cynnig yn yr INM, nid yw'n cael ei ystyried yn addas ar hyn o bryd ar gyfer teithio llesol gan nad yw'n bodloni'r safonau sy'n ofynnol gan Gyfarwyddyd Dylunio Llywodraeth Cymru.

Mae Cynnig INM-BR-61 yn cyfeirio at gyfleuster croesi gwell a gwaith cysylltiedig ar droedffordd wrth gyffordd Heol Pen-y-bont ar Ogwr/Heol yr Eglwys ym Mhen-y-fai yng

nghyffiniau'r orsaf betrol. Yn olaf, mae yna gynnig hefyd (INM-BR-15) i wella mynediad i gerddwyr rhwng Llwybr Cenedlaethol 885 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, sy'n rhedeg ochr yn ochr ag Afon Ogwr, a Phentref 'Designer Outlet' Pen-y-bont ar Ogwr.

Cwestiwn atodol gan y Cynghorydd Altaf Hussain

Gan fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i gynnwys yn Ninas Ranbarth Caerdydd ac yr addawyd y rhoddir cyfraniad at ei chronfa ar gyfer datblygiadau cludiant, a allai'r Aelod Cabinet - Cymunedau roi gwybod i'r Cyngor pryd y bydd Gwasanaethau Rheilffordd y Metro bob 15 munud yn cael eu darparu ar gyfer gorsafoedd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys gwasanaethau'r brif linell a gwasanaethau llinell gangen Maesteg.

**Ymateb:**

Dywedodd yr Aelod Cabinet - Cymunedau y byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn derbyn cyfraniad gwerthfawr tuag at brosiectau a glustnodwyd o fewn Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a oedd fel roedd yr Aelodau'n ymwybodol, yn brosiect hirdymor. Roedd yna wahanol elfennau i'r prosiect, gan gynnwys cynlluniau posibl ar gyfer darparu gwasanaethau rheilffordd o fath metro, er bod anawsterau ar hyn o bryd yng ngorsaf reilffordd Pencoed, oherwydd y groesfan rheilffordd a oedd yn creu ciwiau o draffig cerbydol yn y lleoliad hwn. Roedd yna gynnig hefyd i ystyried gwaith i wella'r bont yn yr orsaf reilffordd hon, a fyddai'n caniatáu i wasanaethau trên ychwanegol lifo'n ddirwystr. Byddai hyn yn cael effaith nid yn unig ym Mhencoed, ond hefyd ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol, gan gynyddu'r trenau fyddai'n cael eu darparu mewn nifer fawr o leoliadau. Roedd cyfarfod wedi'i drefnu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth, a byddai mwy yn hysbys ar ôl i'r cyfarfod hwn ddigwydd.

Daeth yr Aelod Cabinet - Cymunedau â'i ymateb i ben, drwy atgoffa'r Cyngor mai prosiect hirdymor oedd y Fargen Ddinesig a fyddai'n rhychwantu tua 15 mlynedd, a byddai prosiectau y buddsoddwyd ynddynt, gan gynnwys y rheiny ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn datblygu ac yn symud ymlaen wrth i'r Fargen Ddinesig greu momentwm.

194. YSGOL GYNRADD CWMFELIN - RHAGLEN GYFALAF

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Addysg a Chymorth i Deuluoedd a'r Pennaeth Cyllid a'r Swyddog A151 Dros Dro adroddiad ar y cyd. Diben yr adroddiad oedd ceisio cael cymeradwyaeth y Cyngor i ddiwygio'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2018 i 2028, i gynnwys cyllideb o £165k ar gyfer adeiladu ystafell ddosbarth newydd yn Ysgol Gynradd Cwmfelin. Byddai'r arian yn dod o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, yr ysgol dan sylw a chyllideb y Gyfarwyddiaeth Cymorth i Deuluoedd.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Addysg a Chymorth i Deuluoedd, er gwaethaf y ffaith bod staff yn gwneud y defnydd gorau o adeiladau'r ysgol fod maint annigonol yr ystafelloedd ddosbarth yn yr Ysgol yn rhoi pwysau ar gyfleoedd addysgu a dysgu yno. Roedd yr awdurdod lleol wedi cydnabod bod angen mwy o le ar yr Ysgol i gynorthwyo i gyflawni'r cyfnod sylfaen ac ymgymryd ag ymyriadau.

Cadarnhaodd fod nifer o awgrymiadau wedi'u hystyried, gyda chynllun yn cael ei ddatblygu o'r diwedd ar gyfer darparu llety sy'n addas ar gyfer grwpiau o 20, sy'n bodloni anghenion yr Ysgol. Felly, cynigiwyd bwrw ymlaen ar sail darparu'r gofod hwn fel adeilad newydd ar ddarn o dir sy'n agos at adeilad y Feithrinfa ar safle'r Ysgol.

Byddai'r ddarpariaeth hon yn darparu'r gofod ychwanegol sydd ei angen, a fyddai yn ei dro yn lleihau'r pwysau ar y dosbarthiadau presennol, yn ogystal â chefnogi cyflwyno ymyriadau a gwaith grŵp.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Addysg a Chymorth Teuluol na ragwelir y byddai angen unrhyw le ychwanegol ar gyfer ystafell ddosbarth yn y dyfodol agos, gan fod twf demograffig rhagamcanol yn gymharol isel yn nalgylch yr Ysgol hon. Felly, nid oedd unrhyw gynnig i gynyddu'r nifer derbyn a gyhoeddwyd (PAN) i'r Ysgol o ganlyniad i'r cynnig.

Yna cwblhaodd ei gyflwyniad, trwy gynghori ynghylch goblygiadau ariannol yr adroddiad.

Dywedodd un Aelod ei fod yn croesawu gwaith a oedd yn cael ei wneud mewn perthynas ag ysgolion o dan y Rhaglen Foderneiddio Ysgolion sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Ond dywedodd y byddai hefyd yn croesawu adborth ar ganlyniadau buddsoddiad o'r fath mewn perthynas ag ysgolion rywbryd yn y dyfodol, hy i weld a oes gwelliannau wedi'u gwneud yno.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Addysg a Chymorth Teuluol y byddai'n gallu darparu'r wybodaeth hon i'r Aelodau maes o law.

Gofynnodd un Aelod am sicrwydd gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Addysg a Chymorth i Deuluoedd, fod y buddsoddiad sy'n cael ei ymrwymo i'r Ysgol yn opsiwn synhwyrol, o ystyried yr aildrefnu arfaethedig ar Ysgolion Cwm Llynfi maes o law.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Addysg a Chymorth i Deuluoedd fod Adeilad yr Ysgol yn Ysgol Gynradd Cwmfelin yn adeilad categori Cyflwr C, yn rhy fach ac o ansawdd gwael, gydag ystafelloedd cotiau wedi’u lleoli yn yr ystafelloedd dosbarth ac felly roedd angen ei wella er mwyn ei ddwyn i fyny i'r safon ofynnol. Ychwanegodd y byddai diweddariad pellach yn y dyfodol o ran ad-drefnu ysgolion ym Maesteg fel y cyfeiriwyd ato gan yr Aelod.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn rhoi cymeradwyaeth i ddiwygio'r Rhaglen Gyfalaf i gynnwys cyllideb o £165k i ariannu'r lle ar gyfer ystafelloedd dosbarth sydd i gael ei hadeiladu o’r newydd yn Ysgol Gynradd Cwmfelin, gyda'r arian i ddod o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, cyllidebau’r Ysgol a’r Gyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

195. ADRODDIAD ADOLYGU CYNLLUN DATBLYGU LLEOL PEN-Y-BONT AR OGWR (CDLL) (2013)

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad i'r Cyngor, i roi gwybod am ganlyniad yr ymarferiad ymgynghori ar Adroddiad Adolygu drafft Cynllun Lleol Pen-y-bont ar Ogwr (2013), ac i ofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i gyflwyno Adroddiad Adolygu terfynol CDLl Pen-y-bont ar Ogwr (a atodir yn Atodiad 1 yr adroddiad) (ar y cyd â'r Cytundeb Cyflenwi CDLl Newydd i Lywodraeth Cymru) cyn diwedd Mehefin 2018.

Dywedodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Datblygu y dylid ysgrifennu Adroddiad Adolygu sy'n rhan statudol o'r broses o Adolygu’r CDLl llawn cyn unrhyw ddiwygiad i’r CDLl.

Mae'r Adroddiad Adolygu'n nodi maint arfaethedig y newidiadau tebygol i'r CDLl presennol (2006-2021) ac mae'n ceisio cadarnhau'r weithdrefn adolygu i'w dilyn wrth baratoi CDLl newydd.

O ran 'llwybr trefniadol', yn achos Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r cynllun eisoes yn destun adolygiad llawn 4 blynedd sydd ei angen yn statudol, ac felly bydd angen asesu pob agwedd ar y cynllun i ystyried a ydynt yn parhau i fod yn gadarn ac yn addas at y diben. Bydd hyn yn cynnwys gweledigaeth, amcanion, strategaeth ofodol, polisïau a dyraniadau defnydd tir y CDLl, gan ddilyn yr un broses baratoi a'r un cyfnodau yn fras â'r cynllun gwreiddiol.

Cadarnhaodd fod yr Adroddiad Adolygu'n cwmpasu'r pynciau canlynol: -

- Newidiadau Cyd-destunol
- Asesiad o'r Newidiadau Tebygol sy'n Angenrheidiol i'r CDLl Cyfredol
- Adolygiad o'r Sail Dystiolaeth
- Opsiynau Adolygu'r CDLl

O ran ymgynghoriad cyhoeddus, bydd Aelodau'n cofio bod adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Cyngor ar 25 Ebrill 2018 yn gofyn am awdurdodiad i gynnal ymgynghoriad wedi'i dargedu ar Adroddiad Adolygu CDLl drafft Pen-y-bont ar Ogwr rhwng 30 Ebrill 2018 a 25 Mai 2018. Cynhaliwyd yr Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Adolygu drafft ar y cyd â'r Cytundeb Cyflawni drafft.

Cadarnhaodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Datblygu fod yr ymgynghoriad yn cael ei hysbysebu yn y ffyrdd canlynol: -

- Roedd y dogfennau ymgynghori ar gael i'w harchwilio gyda ffurflenni sylwadau yn y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel;
- Rhoddwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad, gan gynnwys yr holl ddogfennau, ffurflenni sylwadau a'r cyfleuster i gyflwyno sylwadau yn electronig ar wefan y Cyngor; ac
- Anfonwyd negeseuon e-bost a llythyrau at oddeutu 190 o ymgynghoreion wedi'u targedu, gan gynnwys Cynghorau Cymuned, ymgynghorwyr cynllunio, adeiladwyr tai, cymdeithasau tai a sefydliadau allanol perthnasol eraill gyda manylion am sut i ymateb.

Erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori, roedd 11 o unigolion a sefydliadau allanol wedi cyflwyno sylwadau ar yr Adroddiad Adolygu drafft.

Mewn ymateb i hyn, mae'r Cyngor wedi llunio Adroddiad Ymgynghori (a gynhwysir fel Atodiad 7 yn yr Adroddiad Adolygu terfynol) sy'n rhoi ymateb y Cyngor i'r sylwadau a dderbyniwyd. Ond nid oedd yn angenrheidiol gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r ddogfen o ganlyniad i sylwadau o'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Cwblhaodd ei gyflwyniad, trwy gynghori y gallai Aelodau weld copïau o'r sylwadau llawn yn yr Adran Gynllunio.

PENDERFYNWYD: (1) Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Adroddiad Adolygu terfynol a'i fod yn awdurdodi Rheolwr y Grŵp Datblygu, y Gyfarwyddiaeth Cymunedau i gyflwyno Adroddiad Adolygu terfynol CDLl Pen-y-bont ar Ogwr sydd ynghlwm yn Atodiad 1 yr adroddiad (ar y cyd â Chytundeb Cyflenwi'r CDLl Newydd i Lywodraeth Cymru cyn diwedd Mehefin 2018.

(2) Bod y Cyngor yn rhoi awdurdod dirprwyedig i Reolwr Datblygu'r Grŵp, y Gyfarwyddiaeth Cymunedau, i wneud

unrhyw gywiriadau ffeithiol neu fân newidiadau i'r Adroddiad Adolygu, fel y bo'n angenrheidiol.

196. CYTUNDEB CYFLAWNI CYNLLUN DATBLYGU LLEOL (CDLL) NEWYDD PEN-Y-BONT AR OGWR

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau adroddiad i'r Cyngor ar ganlyniad yr ymarferiad ymgynghori ar Gytundeb Cyflenwi CDLl Newydd Pen-y-bont ar Ogwr, a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cyngor i gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni terfynol (ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad) (ar y cyd ag Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr (2013) i Lywodraeth Cymru cyn diwedd Mehefin 2018.

Mae'r Cytundeb Cyflawni yn nodi sut a phryd y gall y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill gyfrannu at baratoi'r Cynllun Newydd ac amserlen ar gyfer ei baratoi. Cynigir y bydd y CDLl Newydd yn cynnwys cyfnod y cynllun hyd at 2033.

Dywedodd yr Arweinydd Tîm Cynllunio Datblygu, o ran ymgynghori ar y Cytundeb Cyflawni, y byddai Aelodau hefyd yn cofio y cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor ar 25 Ebrill 2018 a oedd yn amlinellu ymateb yr Ysgrifennydd Cabinet, a oedd yn caniatáu i Ben-y-bont ar Ogwr fynd ymlaen â'i CDLl yn ddarostyngedig i ddyddiad cau caeth oedd yn gofyn am gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni cyn diwedd Mehefin 2018. Roedd yr adroddiad hefyd yn gofyn am awdurdodiad i gynnal ymgynghoriad wedi'i dargedu ar Gytundeb Cyflwyno CDLl Newydd drafft Pen-y-bont ar Ogwr rhwng 30 Ebrill 2018 a 25 Mai 2018.

Ychwanegodd y cynhaliwyd yr Ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni drafft ar y cyd ag Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol (2013) drafft Pen-y-bont ar Ogwr.

Hysbysebwyd yr ymgynghoriad yn y ffyrdd canlynol: -

- Roedd y dogfennau ymgynghori ar gael i'w harchwilio yn y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel;
- Rhoddwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad ar wefan y Cyngor; ac
- Anfonwyd negeseuon e-bost a llythyrau at tua 190 o ymgynghoreion, gan gynnwys Cynghorau Cymuned, ymgynghorwyr cynllunio, adeiladwyr tai, cymdeithasau tai a sefydliadau allanol perthnasol eraill gyda manylion am sut i ymateb.

Ychwanegodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Datblygu, erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori, bod 8 sefydliad allanol wedi cyflwyno sylwadau ar y Cytundeb Cyflawni drafft. Mewn ymateb, mae'r Cyngor wedi llunio Adroddiad Ymgynghori a gynhwyswyd fel Atodiad 3 yn y Cytundeb Cyflawni terfynol, a oedd yn rhoi ymateb y Cyngor i'r sylwadau a dderbyniwyd.

Gellir gweld copïau o'r sylwadau llawn gan yr Aelodau yn yr Adran Gynllunio, ychwanegodd ymhellach.

Roedd y prif newidiadau i'r Cytundeb Cyflawni a argymhellwyd gan Swyddogion yn cynnwys:

- Diweddariadau i'r rhestr o Gyrff Ymgynghori (sydd ynghlwm fel Atodiad 1 yn y Cytundeb Cyflawni):
    - Ystyrid ei bod yn ddoeth cynnwys yr holl ACLl ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn hytrach na dim ond yr ACLl cyfagos (Bro Morgannwg, RhCT a Chastell-nedd Port Talbot) i adlewyrchu cydweithio / gweithio rhanbarthol a pharatoi'r Cynllun Datblygu Strategol.

- Mae Iechyd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr a Bwrdd Partneriaeth Pen-y-bont ar Ogwr wedi cael eu dileu gan fod y ddau wedi'u disodli gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Mae RNI Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw wedi disodli Gweithredu ar Golli Clyw.
- Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi disodli'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, a'r Comisiwn Hawliau Anabledd.
- Mae Fields in Trust - yn disodli Cymdeithas Genedlaethol Caeau Chwarae Cymru.
- Mae 'Gweithredu ar Golli Clyw' wedi disodli'r Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol ar gyfer Pobl Fyddar a thrwm eu Clyw.
- Mae Anabledd Cymru wedi disodli Cyngor Cymru i'r Anabl.

- Gwnaed diwygiad i'r amserlen (ynghlwm yn Atodiad 2 i'r adroddiad) i'r Cytundeb Cyflawni i adlewyrchu y dylid cynnal ymarferiad cwmpasu Gwerthusiad Cynaliadwyedd (SA) cyn ymgynghori'n gyhoeddus ar gynigion CDLl sylweddol. Bydd angen i'r holl safleoedd a gyflwynir mewn ymateb i 'alwad am safleoedd' yn y dyfodol fod yn ddarostyngedig i Werthusiad Cynaliadwyedd maes o law, felly byddai'n well diffinio fframwaith, methodoleg a gofynion gwybodaeth Gwerthusiad Cynaliadwyedd y CDLl trwy Adroddiad Cwmpasu Gwerthusiad Cynaliadwyedd cyn cyhoeddi'r alwad am safleoedd (ac unrhyw pro-formas cysylltiedig yn ymwneud â safleoedd). Dylai hyn helpu i sicrhau bod hyrwyddwyr safleoedd yn cyflwyno digon o wybodaeth am gynaliadwyedd a'r amgylchedd er mwyn galluogi'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd i gael ei wneud yn effeithlon.
- Roedd paragraff 1.6.2 wedi'i ddiwygio i ddangos rhywfaint o gysylltiad rhwng y Gwerthusiad Cynaliadwyedd (SEA), Cynllun Llesiant Pen-y-bont ar Ogwr (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).
- Mae paragraff 1.6.3 wedi'i ehangu i gyfeirio at y gofyniad statudol i ymgymryd â sgrinio SEA.
- Mae Paragraff 1.6.3, yr ail a'r trydydd pwynt bwled, wedi'u cyfuno mewn un bwled at ddibenion eglurder.
- Mae Paragraff 1.6.3, y pwynt bwled olaf, wedi ei ddiwygio i egluro y bydd Datganiad Mabwysiadu'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd yn cael ei gyhoeddi ar ôl mabwysiadu'r CDLl newydd.

O ran y sefyllfa bresennol, cadarnhaodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Datblygu bod y Cytundeb Cyflawni drafft yn cynnwys 2 ran: -

- Amserlen ar gyfer paratoi'r CDLl Newydd, a
- Chynllun Cynnwys y Gymuned.

Mae'r amserlen yn nodi'r dyddiadau allweddol, gan gynnwys cyfnodau ymgynghori statudol, ar gyfer pob un o'r gwahanol gyfnodau o baratoi a chyhoeddi'r Cynllun.

Roedd hefyd yn cynnwys camau allweddol ar gyfer y Gwerthusiad Cynaliadwyedd, sef proses ailadroddus a gynhaliwyd fel rhan annatod o'r broses o baratoi'r Cynllun.

Eglurodd fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni, ac roedd ganddynt 1 mis i ystyried a chytuno ei gynnwys neu i roi gwybod i'r ACLI bod angen mwy o amser i ystyried y ddogfen.

PENDERFYNWYD: (1) Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni terfynol ar gyfer y CDLI Newydd ac yn awdurdodi'r Rheolwr Grŵp Datblygu, y Gyfarwyddiaeth Cymunedau i gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni terfynol (ynghlwm yn Atodiad 1) (ar y cyd ag Adroddiad Adolygiad CDLI (2013) CDLI (gweler eitem ar wahân) i Lywodraeth Cymru cyn diwedd mis Mehefin 2018.

(2) Bod y Cyngor yn rhoi awdurdod dirprwyedig i Reolwr y Grŵp Datblygu, y Gyfarwyddiaeth Gymunedau i wneud unrhyw gywiriadau ffeithiol neu fân newidiadau i'r Cytundeb Cyflawni fel y bo'n angenrheidiol.

197. DIWYGIO'R CYFANSODDIAD

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i ddiwygiadau arfaethedig i'r Cyfansoddiad.

Fel gwybodaeth gefndirol, dywedodd y Swyddog Monitro bod adolygiad bwrdd gwaith o'r Cyfansoddiad wedi'i wneud i sicrhau ei fod yn gyfoes ac yn addas i'r diben.

Cyfeiriodd at baragraff 4.2 yr adroddiad a rhai diwygiadau arfaethedig i'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Pwyllgor Archwilio, fel y dangoswyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Yna, argymhellodd yr adroddiad ymhellach fod y Rheolau Fframwaith Cyllideb a Pholisi yn cael eu diwygio ym mharagraff 2 (d), ac oherwydd nad oedd y newidiadau a ddangoswyd fel 'tracked changes' yn Atodiad 2 yr adroddiad yn manylu ar y rhain wedi ymddangos yn y copïau a gynhyrchwyd i'r Aelodau oherwydd problem dechnegol ar Modern.Gov, cyflwynodd y diwygiad hwn ar lafar i'r Aelodau.

Roedd y diwygiad diwethaf a awgrymwyd i'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Rhan 4, Rheolau Gweithdrefn ym mharagraff 17 mewn perthynas â phleidlais fwrw'r Maer. Cynigiwyd y dylid diwygio hyn er mwyn peidio â bod yn berthnasol mewn perthynas â phleidleisio ar benodiadau. Manylwyd ar y 'tracked change' hwn yn Atodiad 3 i'r adroddiad, ond oherwydd problem dechnegol debyg i'r un y cyfeiriwyd ati uchod, nid oedd y newid hwn ychwaith wedi bod yn weladwy ar gopïau o'r adroddiad a ddosbarthwyd yn flaenorol.

Byddai angen diwygio'r Cyfansoddiad o ganlyniad i ddarpariaethau'r adroddiad.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r Cyfansoddiad fel y nodwyd yn yr adroddiad a'i Atodiadau ynghlwm.

198. AIL-DDYRANNU CYNLLUN DIRPRWYO SWYDDOGAETHAU'R CYNGOR YN YMWNEUD Â'R GYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU GWEITHREDOL A PHARTNERIAETH

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad a'i bwrpas oedd ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i drosglwyddo swyddogaethau'r Cyngor o fewn y Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau a ddyrennir ar hyn o bryd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth.

Roedd yr adroddiad yn cynghori, o ganlyniad i ddileu swydd Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Gweithredol a Chorfforaethol yn ddiweddar, ac er mwyn cynnal prosesau gwneud penderfyniadau effeithiol, bod holl Swyddogaethau'r Cyngor yng Nghynlluniau B1 a B2 y Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau a ddyrannwyd i ddeilydd blaenorol y swydd a ddilëwyd uchod, yn cael eu hailddyrannu i'r Swyddog Monitro.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:-

(1) yn cymeradwyo trosglwyddo swyddogaethau'r Cyngor o fewn y Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau o'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Gweithredol a Phartneriaeth i'r Swyddog Monitro.

(2) Nodwyd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn argymell newid tebyg i'r Cynllun Dirprwyo Swyddogaethau ar gyfer swyddogaethau Gweithredol.

199. EITEMAU BRYS

Dim.

200. GWAHARDD Y CYHOEDD

PENDERFYNWYD: O dan Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, dylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir hynny ym Mharagraff 12, 13, 14, 15 a 16 o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007.

Yn dilyn cymhwyso'r prawf budd y cyhoedd wrth ystyried yr eitem hon, penderfynwyd, yn unol â'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, ystyried yr eitem yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael ei eithrio o'r cyfarfod gan y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth eithriedig o natur fel y nodwyd uchod.

201. CYMERADWYO COFNODION EITHRIEDIG

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo Cofnodion eithriedig cyfarfod cyffredin o'r Cyngor dyddiedig 25 Ebrill 2018 fel cofnod gwir a chywir.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:19